



Polisi Preifatrwydd Gwefan

Cwcis Hanfodol

Mae tudalen we www.seamorkayaking.wales wedi cael ei gwneud gan ddefnyddio Wix. Wix yn defnyddio 'cwcis hanfodol' i sicrhau bod y wefan yn gweithio'n iawn. Mae manylion y cwcis y mae Wix yn eu defnyddio ar ei wefannau i'w gweld yma <https://support.wix.com/en/article/cookies-and-your-wix-site>

Google Analytics

Mae Sea Môr Kayaking yn defnyddio Google Analytics i ddadansoddi faint o bobl sy'n ymweld â'r wefan a pha dudalennau o fewn y wefan y maent wedi ymweld â nhw. Mae Google hefyd yn dweud wrthym o ba wlad y cyrchwyd y dudalen we. Gellir analluogi'r swyddogaeth hon yn naidlen gosodiadau cwci.

Data Personol a gasglwn

Ffurflen archebu

Mae Sea Môr Kayaking yn gofyn i gleientiaid lenwi ffurflen archebu. Rydym yn casglu'r data sydd ei angen arnom i allu cysylltu â chi ynglŷn â'ch profiad caiacio. Rydym hefyd yn gofyn am fanylion eich profiad chwaraeon padlo blaenorol a gwybodaeth feddygol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnig profiad priodol i chi ac i'n helpu i sicrhau eich iechyd a diogelwch. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi am wybodaeth maint er mwyn i ni allu darparu offer a dillad caiacio a chanwio priodol i sicrhau eich diogelwch a'ch cysur trwy gydol eich profiad. Defnyddir y data hwn gan staff Sea Môr Kayaking yn unig. Nid ydym yn rhannu eich data gyda chwmnïau neu sefydliadau eraill.



Diweddariadau e-bost

O bryd i'w gilydd byddwn yn e-bostio pobl i roi gwybod iddynt am unrhyw ddiweddariadau allweddol a dyddiadau ar gyfer teithiau. Rydyn ni'n gwneud hyn gan ddefnyddio pecyn o'r enw Mailchimp. Gallwch gofrestru ar gyfer hyn drwy'r wefan drwy glicio ar 'Derbyn diweddariadau e-bost' neu drwy ddewis cael diweddariadau e-bost drwy dicio'r blwch perthnasol ar eich ffurflen archebu. Rydym yn casglu eich enw a'ch cyfeiriad e-bost ac yn storio'r wybodaeth hon yn ein cyfrif Mailchimp. Gallwch rannu eich rhif ffôn os dymunwch. Nid ydym yn rhannu'r data hwn ag unrhyw un arall.